Delyth Jewell MS
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

7fed o Dachwedd 2022

Annwyl Gadeirydd,

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at fater deddfwriaethol pwysig. Ynghyd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a'r diwydiannau creadigol ehangach, rydym yn mynd yn fwy a mwy pryderus am oedi pellach posibl gyda Bil Cyfryngau arfaethedig Llywodraeth y DU. Mae consensws clir ar gyfer setliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd i gynnal amlygrwydd a chynaliadwyedd cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sydd, fel y gwyddoch, yn chwarae rhan mor hanfodol ym mywyd gwleidyddol, diwylliannol ac economaidd ein gwlad.

Mae amseriad y Bil Cyfryngau yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ITV sy'n dod i ben yn 2024, ac sy'n sail i'r hyn y mae ITV Cymru Wales yn ei wneud yng Nghymru. Yn wir, rydym bellach ymhell i mewn i'r broses statudol ar gyfer adolygu ac adnewyddu ein trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus - proses y mae dealltwriaeth glir o'n hymrwymiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn hanfodol bwysig ar ei chyfer.

Fel y mae adroddiad diweddaraf OFCOM *Cyfryngau'r Genedl* yn ei nodi, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n parhau i fod y brandiau newyddion yr ymddiriedir ynddynt fwyaf yng Nghymru ac sy'n cael eu defnyddio fwyaf - gan ddarparu darllediadau dibynadwy a diduedd o ddigwyddiadau mewn byd o wybodaeth anghywir ar-lein. Gyda chyrhaeddiad teledu wythnosol o 1.4m, rydym yn falch iawn yn ITV Cymru Wales o fod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus rhad ac am ddim a ariennir yn gyffredinol i gynulleidfa ffyddlon a allai fel arall gael ychydig, os o gwbl, o newyddion am Gymru.

Byddwch yn ymwybodol bod gennym ni yng Nghymru sector cynhyrchu annibynnol ffyniannus, a byddwch hefyd yn ymwybodol o'r rôl hollbwysig y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae drwy greu swyddi ac yn meithrin talent ledled Cymru. Ynghyd â chwmni ITV Studios Boom Cymru, mae ITV yn gyflogwr sylweddol yma yng Nghymru gyda rhyw 400 o staff yn gweithredu o wahanol leoliadau ar draws y wlad. Yn wir, ar draws y DU, mae ITV yn gwario mwy ar gynnwys newydd o'r DU, mwy ar gynhyrchwyr annibynnol a mwy ar raglenni a wneir y tu allan i Lundain nag unrhyw ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus masnachol arall. Mae bron i hanner ein staff (dros 2,100 o bobl) wedi'u lleoli mewn 34 o ganolfannau y tu allan i Lundain.

Mae gennym ni hefyd rôl hanfodol ym mywyd gwleidyddol a diwylliannol Cymru. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dod â phobl ynghyd i ddathlu neu ymdopi ag adfyd. Mae ein darllediadau sensitif a helaeth o farwolaeth ddiweddar y Frenhines yn enghraifft

wych o hyn. Ar yr un pryd rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddod â'r genedl at ei gilydd yn ddiweddarach y mis hwn ar gyfer gêm agoriadol Cymru yng Nghwpan y Byd Qatar yn ogystal â dilyn Cymru yn Nhwrnamaint y Chwe Gwlad yn y flwyddyn newydd.

Fodd bynnag, mae risg bod ein cyfraniad yn cael ei gymryd yn ganiataol. Rwy'n credu bod y Bil Cyfryngau a'r diwygio deddfwriaethol y mae'n ei gynnig yn hollbwysig ac yn fater brys i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

Yn syml, mae'n mynd yn anoddach i greu cynnwys pwrpasol yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru a ninnau bellach yn cystadlu â ffrydiau byd-eang sy'n cynnig ychydig neu ddim cynnwys Cymraeg.

Mae teledu'n cael ei ddarparu a'i ddefnyddio mwy a mwy ar-lein wrth i lwyfannau technoleg ar-lein byd-eang ddod yn geidwaid pyrth ar gyfer teledu yng Nghymru a'r DU. Heb ddiwygio'r system bresennol bydd cynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach nid yn unig yn cael trafferth dod o hyd i'r cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus y maent yn ei werthfawrogi, ond bydd symiau ariannol mawr yn cael eu tynnu o'r ecosystem darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac economi greadigol y DU gan lwyfannau ar-lein byd-eang. Yn syml, heb ddiwygio brys, rydym eisoes yn gweld â'n llygaid ein hunain sut y bydd y llwyfannau hyn yn tynnu symiau cynyddol o arian gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac economi greadigol y DU, gan fygwth mwy a mwy o gyflogaeth mewn teledu ar raddfa fawr ledled y DU a chyfraniad darlledu gwasanaeth cyhoeddus i fywyd cenedlaethol.

Ymhellach i hyn, mae yna bosibilrwydd y bydd digwyddiadau chwaraeon rhestredig - sydd mor hanfodol i hunaniaeth Cymru - yn diflannu'n gyfan gwbl o deledu am ddim i'w wylio oni bai bod y drefn sy'n eu diogelu yn cael ei diweddaru.

Mae angen diwygio'r system ar frys os yw'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddu sy'n chwarae rhan mor hanfodol ym mywyd Cymru am barhau i ffynnu. Mae'r Bil Cyfryngau yn hanfodol i sicrhau, mewn oes o deledu ar-lein, bod gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus amlygrwydd, cynhwysiant a gwerth teg am eu cynnwys - gan gystadlu'n deg â ffrydiau byd-eang a sicrhau gwerth teg am ein buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU sydd â gwerth clir i'r DU.

Yn eich rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant y Senedd, byddem yn ddiolchgar petai modd i chi ein cefnogi drwy godi a rhannu ein pryderon gydag Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod Bil y Cyfryngau yn cael ei gyflwyno fel mater o frys ac heb ragor o oedi.

Yr eiddoch yn gywir,

Phil Henfrey
Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Cymru Wales